Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Y Garnedd
# Ysgol Y Garnedd
# Ffordd Penrhos
# Bangor
# LL57 2LX

# Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2017

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/09/2017**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin y Garnedd yn 2003 ac fe'i lleolir mewn caban ar safle Ysgol Gynradd y Garnedd ar dir uchel ar gyrion Bangor, yng Ngwynedd. Mae'r lleoliad ar agor am bum bore a phum prynhawn bob wythnos.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 40 o blant rhwng dwy a hanner a phedair blwydd oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 22 o blant tair blwydd oed ar y gofrestr, a 18 o'r rhain yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu. Daw tua hanner o'r plant o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Mae gan ychydig iawn o blant anghenion dysgu ychwanegol a daw ychydig iawn o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi chwe aelod o staff amser llawn ac un aelod rhan amser. Penodwyd y ddau arweinydd dros dro ym mis Chwefror 2017.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Estyn yn Chwefror 2010, a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Mai 2017.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- bron pob un plentyn yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn ystod eu hamser yn y lleoliad
- y rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau siarad a gwrando yn yr iaith Gymraeg
- y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu
- bron pob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn awyddus i ymuno yn y gweithgareddau
- ymarferwyr yn cynllunio profiadau symbylol ar y cyd sydd yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus
- darpariaeth ar gyfer hybu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn elfen gref o waith y lleoliad
- yr holl ymarferwyr yn fodelau iaith da

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y ddau arweinydd dros dro wedi llwyddo i gynnal gweledigaeth gadarn yr arweinydd parhaol
- gan yr arweinyddiaeth ffocws clir ar gynnal safonau uchel o ran trosglwyddo'r Gymraeg a datblygu medrau'r plant
- yr holl ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda ac yn cydweithio'n effeithiol
- gan y lleoliad ddiwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn dod yn rhan reolaidd o waith y lleoliad
- y lleoliad yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod fuddiol o bartneriaid sy'n cyfrannu'n fuddiol at safonau a lles y plant
- y cydweithrediad hwylus gyda'r ysgol yn arbennig o werthfawr i'r lleoliad
- y lleoliad yn sicrhau cyflenwad da o adnoddau buddiol sy'n ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Gwella gallu'r plant i wneud penderfyniadau a chyfrannu at beth maent yn dysgu

A2 Sicrhau bod holl ardaloedd y ddarpariaeth barhaus ar gael yn gyson ac yn bodloni anghenion yr holl blant yn briodol

A3 Darparu cyfleoedd effeithiol i'r plant ddysgu am gynaliadwyedd

A4 Sicrhau cyfleoedd buddiol i'r holl ymarferwyr ddatblygu'n broffesiynol trwy fynychu hyfforddiant ac ymweld â lleoliadau eraill

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un plentyn yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn ddeallus, gan gymhwyso eu medrau allweddol mewn amrywiaeth o gyd-destunau yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau siarad a gwrando yn yr iaith Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n ofalus ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn gyson, gan ddangos dealltwriaeth dda. Maent yn ymuno'n hapus i ganu caneuon a rhigymau yn y lleoliad yn rheolaidd. Mae llawer o'r plant yn siarad yn hyderus wrth chwarae gyda'i gilydd ac oedolion cyfarwydd. Er enghraifft, maent yn defnyddio iaith addas i'w hoed a'u gallu wrth brynu a gwerthu yn y 'siop hufen iâ'. Mae'r rhan fwyaf yn dangos diddordeb mewn llyfrau, ac yn eu trin yn gywir wrth fwynhau'r cynnwys yn y gornel ddarllen. Mae llawer o'r plant yn canolbwyntio'n astud wrth wrando ar stori, gan ymuno'n frwdfrydig ar adegau addas. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymarfer eu medrau creu marciau yn hyderus at wahanol ddibenion. Er enghraifft, maent yn defnyddio pinnau ffelt yn fedrus i gofnodi cost hufen iâ. Mae ychydig o blant mwy aeddfed yn dechrau ffurfio'r llythrennau yn eu henwau yn gywir.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. Mae bron pob un yn ymuno wrth ganu rhigymau rhif ac mae'r rhan fwyaf yn adrodd rhifau'n gywir at o leiaf deg. Gall ychydig o blant adnabod rhifolion a chyfrif gwrthrychau at o leiaf pump yn hyderus a chyson. Mae llawer yn deall diben arian wrth iddynt dalu am nwyddau yn y siop hufen iâ. Wrth chwarae yn y tywod, maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o wahanol faint a phwysau. Wrth edrych ar lyfrau a thrin adnoddau pwrpasol, mae llawer o blant yn adnabod siapiau 2 ddimensiwn syml yn gywir. Maent yn trefnu a didoli'r anifeiliaid yn gywir wrth chwarae gyda'r fferm.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o'r plant yn datblygu'n briodol. Gall y mwyafrif drin llechen gyfrifiadurol yn hyderus ac mae'r mwyafrif yn defnyddio'r til yn bwrpasol yn y gornel chwarae rôl.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau corfforol cadarn. Maent yn trin offer bach megis pensiliau, cregyn a phegiau yn fedrus ac yn rhedeg yn hyderus o amgylch buarth yr ysgol. Mae llawer yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus. Maent yn arbrofi'n berthnasol gyda gwahanol ddeunyddiau wrth greu lluniau ac yn dilyn eu dychymyg yn effeithiol wrth chwarae rôl. Mae llawer o'r plant yn datblygu eu medrau meddwl yn briodol wrth ymateb i gwestiynau gofalus yr ymarferwyr, a dyfalbarhau'n effeithiol yn eu chwarae.

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn awyddus i ymuno yn y gweithgareddau. Mae ganddynt berthynas agos â'r ymarferwyr sydd yn sicrhau eu

bod yn ymgartrefu'n gyflym. Mae gan bron bob plentyn ymagwedd gadarnhaol at ddysgu, ac maent yn ymgymryd â'r gweithgareddau'n frwdfrydig. Maent yn dyfalbarhau'n effeithiol i gyflawni tasg, er enghraifft wrth greu baner gelfydd i fynd ar gastell tywod neu archwilio'r cregyn ar y bwrdd darganfod. Maent yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad ac yn cydweithredu'n rheolaidd, gan ddilyn cyfarwyddiadau a threfn y sesiynau yn gyson. Mewn sefyllfaoedd perthnasol, mae ychydig o blant mwy aeddfed yn cyd-chwarae'n hynod o bwrpasol ac effeithiol, er enghraifft wrth gymryd rôl wahanol aelodau o'r teulu yn eu chwarae dychmygus.

Trwy gydol y sesiwn, mae bron pob plentyn yn dewis ble i chwarae yn hyderus. Maent yn gweithio'n llwyddiannus yn annibynnol ac ochr yn ochr â'r ymarferwyr. Fodd bynnag, nid ydynt yn cyfrannu syniadau am beth a sut y maent yn dysgu er mwyn magu hyder wrth wneud penderfyniadau, a datblygu eu diddordebau eu hunain yn effeithiol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau symbylol ar y cyd sydd yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn seiliedig ar themâu perthnasol fel 'glan y môr' ac 'yn yr ardd', ar gyfer ystod gallu ac oedran y plant. Mae'r cynlluniau wythnosol yn canolbwyntio'n gynyddol ar ddatblygu medrau penodol y plant yn systematig ac maent yn ymdrin â holl feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n gynyddol effeithiol ar gyfer hybu medrau'r plant yn yr ardal allanol. Fodd bynnag, nid ydynt yn sicrhau bod y ddarpariaeth barhaus yn ddigon hygyrch ac ar gael yn gyson er mwyn bodloni anghenion yr holl blant. Nid yw ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd digon rheolaidd i'r plant ddilyn eu diddordebau eu hunain wrth gynllunio gweithgareddau ar eu cyfer.

Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddatblygu dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas a thrin popeth byw gyda gofal a pharch. Er enghraifft, trwy fynd am dro yn rheolaidd yn y gymuned leol, mae'r plant yn cael cyfleoedd naturiol i ddysgu am y tymhorau, a chylch bywyd blodau a chreaduriaid byw. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r plant ddatblygu eu medrau corfforol, meddwl a chreadigol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd cadarn i ddefnyddio'r offer antur ar dir yr ysgol i ymestyn eu medrau corfforol bras. Ar y cyfan, mae'r ymarferwyr yn sicrhau digon o gyfleoedd i'r plant arbrofi ac archwilio eu hamgylchedd yn hyderus ac annibynnol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn elfen gref o waith y lleoliad. Yn gysylltiedig â'r themâu, mae'r ymarferwyr yn cyflwyno geirfa newydd yn rheolaidd. Maent yn dewis llyfrau perthnasol ac yn sicrhau cyfleoedd cyson ac amrywiol i hybu medrau ysgrifennu cynnar y plant ar draws y meysydd dysgu. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo medrau rhifedd y plant yn gyson ym mhob rhan o'r ddarpariaeth. Enghraifft dda o hyn yw'r cyfle i gyfri gwrthrychau, adnabod rhif a deall pwrpas arian yn y siop hufen iâ. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn datblygu'n briodol.

## Addysgu: Da

Mae gan yr holl ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm ac o ddatblygiad plant. Maent yn disgwyl llawer gan bob un o'r plant ac yn eu herio yn bwrpasol gan sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddysgu trwy chwarae ac arbrofi'n weithredol tu mewn a thu allan. Mae'r holl ymarferwyr yn fodelau iaith da. Maent yn rhoi blaenoriaeth gadarn i sefydlu patrymau iaith Gymraeg ac ymestyn geirfa'r plant yn rheolaidd. Maent yn gwneud yn fawr o bob cyfle i sgwrsio'n naturiol gyda'r plant, gan eu holi'n fedrus i ymestyn eu medrau meddwl. Ar y cyfan, maent yn ymyrryd yn sensitif i helpu'r plant gyrraedd eu camau nesaf.

Mae'r lleoliad wedi sefydlu arferion dyddiol cadarn sy'n cyfrannu'n effeithiol at safonau lles y plant a'u gallu i weithio'n annibynnol. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol, gan ddefnyddio strategaethau cyson sy'n cynnwys canmol y plant yn bwrpasol am eu hymdrechion.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant a'u hanghenion yn dda. Maent yn asesu eu man cychwyn yn addas gan ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen. Mae pob ymarferydd yn arsylwi'r plant ac yn cofnodi eu cyflawniadau yn rheolaidd. Maent yn gwneud defnydd priodol o'r wybodaeth wrth greu eu cynlluniau wythnosol. Maent wedi gwerthuso'r weithdrefn asesu ac yn ei diwygio ar hyn o bryd i amlygu cynnydd plant ar draws y meysydd dysgu gwahanol yn fwy eglur. Mae'r drefn newydd yn eu galluogi i gynllunio'n gynyddol effeithiol ar gyfer camau nesaf bob plentyn.

Mae'r lleoliad yn sicrhau bod rhieni'n cael eu cynnwys yn effeithiol yn addysg eu plant. Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth yn anffurfiol bob dydd wrth ddrws y lleoliad. Maent hefyd yn cynnal cyfarfod ffurfiol i drafod eu cynnydd ac yn darparu adroddiad lliwgar i'r rheini ei gadw ar ddiwedd y flwyddyn.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer hyrwyddo hylendid, bwyta'n iach a chadw'n heini. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo cyn bwyta. Maent yn cynnig cyfleoedd perthnasol i'r plant ddatblygu eu medrau cymdeithasol wrth iddynt rannu llestri, aros tro am ddiod a ffrwyth a sgwrsio gyda'i gilydd amser byrbryd. Mae'r plant yn mynd allan ar fuarth yr ysgol bob dydd i redeg o gwmpas, gan gyfrannu'n effeithiol at eu ffitrwydd a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd cadw'n heini.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol plant yn fuddiol, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r ymarferwyr yn dilyn canllawiau cyson i hyrwyddo ymddygiad cadarn ac yn modelu gwerthoedd fel gonestrwydd, parch a thegwch yn effeithiol. Maent yn cynnig cyfleoedd perthnasol i'r plant ddysgu am draddodiadau Cristnogol, fel y Nadolig a'r Pasg, ac yn datblygu synnwyr o syndod a rhyfeddod am fyd natur yn fuddiol wrth dyfu planhigion yn yr ardd. Wrth addysgu'r plant i gadw'r adnoddau ar ddiwedd bob sesiwn, mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddechrau dangos cyfrifoldeb a pharch tuag at eiddo. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau digon effeithiol er mwyn sicrhau bod y plant yn dysgu am gynaliadwyedd a phwysigrwydd gwarchod ein byd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r arweinydd yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni ac yn cydweithio'n gymwys â gwasanaethau ac asiantaethau allanol. Mae'r lleoliad wedi mabwysiadu polisi cynhwysfawr yn ddiweddar ac yn dechrau gweithredu ar hyn yn briodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned groesawgar a chynhwysol lle mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl weithgareddau. Mae'r ethos teuluol yn hybu parch a gwerthfawrogiad o amrywiaeth cefndiroedd y plant yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio canmoliaeth gadarnhaol i hyrwyddo cydraddoldeb, ac o ganlyniad, mae'r plant yn trin ei gilydd yn ystyrlon.

Mae'r lleoliad wedi llwyddo i greu amgylchedd dysgu deniadol ac ysgogol yn y caban ar dir yr ysgol. Mae'r amgylchedd mewnol wedi'i threfnu'n ofalus gan gynnig profiadau amrywiol a symbylol i'r plant. Fodd bynnag, nid yw pob ardal o'r ddarpariaeth barhaus, er enghraifft toes a phaent, yn ddigon hygyrch ac ar gael yn gyson. Mae hyn yn cyfyngu'r cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu diddordebau eu hunain ac ymarfer yr holl ystod o fedrau yn rheolaidd. Mae'r arddangosfeydd deniadol yn dathlu gwaith y plant ac yn datblygu eu hadnabyddiaeth o lythrennau a rhifau yn effeithiol.

Yn ddiweddar, mae'r ymarferwyr wedi datblygu'r ardal allanol gan gynnig profiadau buddiol yn yr awyr iach. Maent hefyd yn gwneud yn fawr o fuarth ac ardal antur yr ysgol i ymestyn medrau corfforol y plant. Mae'r lleoliad yn darparu ystod gwerthfawr o adnoddau diddorol a phriodol sy'n hybu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn llwyddiannus. Maent hefyd yn cynnig adnoddau naturiol megis gwymon a chregyn sydd yn ennyn chwilfrydedd y plant.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r ardal leol er mwyn atgyfnerthu profiadau'r plant. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i'r plant fynd am dro i gaeau cyfagos.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
| --- | --- |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r ddau arweinydd dros dro wedi llwyddo i gynnal gweledigaeth gadarn y lleoliad. Maent wedi rhannu eu cyfrifoldebau'n effeithiol, gan osod disgwyliadau uchel iddynt eu hunain a'r ymarferwyr. Mae ganddynt ffocws clir ar gynnal safonau uchel o ran trosglwyddo'r Gymraeg a datblygu medrau'r plant. Maent yn cynnal amgylchedd cefnogol ble mae'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn mwynhau dysgu. O ganlyniad i'w gwaith diweddar, yn ogystal â'r arweinyddiaeth gadarn dros amser, mae pawb yn gwneud eu gorau i sicrhau lles y plant a'u bod yn elwa o gyfleoedd a phrofiadau buddiol.

Mae’r holl ymarferwyr yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau’n dda ac yn cydweithio’n effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu’n bositif at rediad llyfn gweithgareddau’r lleoliad. Mae trefn briodol o reoli perfformiad yn bodoli. Yn ddiweddar, mae hyn wedi cynnwys cyfleoedd effeithiol i’r ymarferwyr ddatblygu’n broffesiynol trwy werthuso safon yr addysgu. Mae hyn wedi cael effaith arbennig ar y ddarpariaeth ar gyfer ymestyn medrau meddwl y plant.

Mae’r arweinwyr yn cyfathrebu’n effeithiol â swyddogion y pwyllgor ac maent yn cydweithio’n bwrpasol er budd y lleoliad. Er enghraifft, mae’r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod gwariant a materion cynnal y lleoliad, yn ogystal â dulliau codi arian. Ar y cyd â’r arweinwyr, maent yn sicrhau bod polisïau’r lleoliad i gyd yn eu lle ac yn cael eu gweithredu’n gyson.

Mae’r lleoliad yn rhoi sylw gwerthfawr i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, gan sicrhau bod ffocws effeithiol ar hybu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Yn yr amser byr y maent wedi arwain y lleoliad, mae'r arweinwyr dros dro wedi gwerthuso safonau'r plant ac ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd, gan adeiladu’n effeithiol ar y drefn flaenorol. Mae’r arweinwyr a’r ymarferwyr yn gwerthuso eu gwaith o ddydd i ddydd yn reddfol, gan adnabod cryfderau a meysydd i’w gwella yn briodol. O ganlyniad, mae diwylliant cadarnhaol a llwydiannus o hunanarfarnu wedi’i wreiddio yng nghwaith y lleoliad. Mae hyn yn arwain at welliannau pwrpasol a chyson. Er enghraifft, mae’r arweinwyr wedi gwella safon y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu cynnar y plant yn ddiweddar, gan brynu offer pwrpasol i gefnogi hyn.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o weithdrefnau’r awdurdod lleol i gynnal arfarniad ffurfiol yn flynyddol. Mae hyn yn eu galluogi i werthuso safonau’r lleoliad yn gynyddol effeithiol trwy ddefnydd effeithiol o dystiolaeth uniongyrchol. Maent yn holi barn yr holl ymarferwyr, a’r rhieni a gofalwyr, yn briodol ac yn ystyried eu sylwadau yn addas. Mae canfyddiadau’r hunanarfarnu yn cyfrannu at gynllun datblygu perthnasol sydd yn nodi blaenoriaethau pendant. Mae’r broses yn arwain at welliannau buddiol, er enghraifft datblygu’r ddarpariaeth ar gyfer hybu medrau TGCh y plant. Mae’r cynllun yn cynnwys amserlen a chostau penodol ac yn enwi pwy fydd yn gyfrifol am fonitro cynnydd. Fodd bynnag, nid yw’r targedau bob tro’n ddigon miniog i fesur llwyddiant yn llwyr effeithiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r lleoliad yn cydweithio’n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid sy’n cyfrannu’n fuddiol at safonau a lles y plant. Mae perthynas dda yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a rhieni’r plant. Mae’r rhieni’n gwerthfawrogi safon y gofal dros eu plant a’u cynnydd yn y lleoliad, yn arbennig gyda’u medrau yn yr iaith Gymraeg a’u medrau personol a chymdeithasol. Mae’r ymarferwyr yn cyfathrebu’n effeithiol â’r rhieni. Maent yn cynnig cyfleoedd anffurfiol i drafod cynnydd y plant wrth y drws yn gyson a hefyd yn rhannu lluniau o’r gweithgareddau dyddiol dros gyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn caniatáu iddynt gymryd rôl weithredol yn addysg eu plant.

Mae’r cydweithrediad hwylus gyda’r ysgol yn arbennig o werthfawr i’r lleoliad.  Mae’r ymarferwyr yn gwneud yn fawr o gyfleoedd i arsylwi a mabwysiadu gweithdrefnau’r ysgol, er enghraifft ar gyfer rheoli ymddygiad.  Mae hyn yn sicrhau dilyniant a pharhad buddiol wrth i’r plant symud o un lleoliad i’r llall.  Mae’r plant yn elwa o’r defnydd rheolaidd a wneir o dir a buarth yr ysgol i ymestyn eu medrau corfforol.  Yn ogystal, mae’r plant a’u rhieni yn elwa o ddod yn rhan o gymuned yr ysgol cyn iddynt ddechrau ar eu haddysg ffurfiol.

Mae’r lleoliad yn gwerthfawrogi’r gefnogaeth oddi wrth athrawes yr awdurdod lleol, ac mae gan y lleoliad gysylltiad buddiol â Mudiad Meithrin.  Maent yn elwa o bartneriaethau gwerthfawr gyda’r gymuned leol, er enghraifft wrth ymweld â’r llyfrgell deithiol i fenthyg llyfrau i gefnogi’r themâu.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd effeithlon o’r ymarferwyr ac o adnoddau i gefnogi’r addysgu a’r dysgu.  Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant ifanc.  Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod pob ymarferydd yn gweithio’n effeithiol gan wneud y defnydd gorau o’u profiad a’u harbenigedd.

Mae’r lleoliad yn sicrhau cyflenwad da o adnoddau buddiol sy’n ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.  Mae’r rhain yn cynnwys llyfrau o ansawdd da, esgidiau glaw addas ar gyfer mynd tu allan, a llechi cyfrifiadurol perthnasol.

Mae’r lleoliad yn adnabod anghenion hyfforddiant yr ymarferwyr yn effeithiol trwy weithdrefnau rheoli perfformiad llwyddiannus.  Wrth fyfyrio ar eu harfer eu hunain, mae’r ymarferwyr yn dechrau cynyddu eu medrau.  Mae’r ymarferwyr wedi rhannu eu harfer dda ar gyfer cofnodi asesiadau gydag ymarferwyr o leoliadau eraill.   Fodd bynnag, nid yw ymarferydd yn elwa o gyfleoedd rheolaidd i ddatblygu’n broffesiynol trwy fynychu hyfforddiant ac ymweld â lleoliadau eraill.

Mae gan yr arweinwyr a swyddogion y pwyllgor ddealltwriaeth dda o sefyllfa ariannol y lleoliad.  Maent yn rheoli gwariant yn effeithiol ac yn cydweithio i geisio sicrhau cyllid priodol i’r lleoliad.

O ystyried safonau lles a medrau iaith, rhifedd a TGCh y plant, safon yr addysgu, y ddarpariaeth a’r arweinyddiaeth, mae’r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 17 | 12 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 17 | 14 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 17 | 13 | 3 | 0 | 1 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 76% | 18% | 0% | 6% | | |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 17 | 13 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 17 | 10 | 5 | 1 | 0 | 1 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 59% | 29% | 6% | 0% | | |
| | | 71% | 28% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 17 | 13 | 3 | 1 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 76% | 18% | 6% | 0% | | |
| | | 80% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 17 | 11 | 4 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 65% | 24% | 6% | 0% | | |
| | | 83% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 17 | 13 | 4 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 17 | 14 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 16 | 9 | 3 | 1 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 56% | 19% | 6% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 17 | 10 | 5 | 1 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 59% | 29% | 6% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 5% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 17 | 14<br>82%<br>80% | 2<br>12%<br>19% | 0<br>0%<br>1% | 1<br>6%<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 17 | 9<br>53%<br>65% | 6<br>35%<br>32% | 0<br>0%<br>3% | 0<br>0%<br>1% | 2 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| My child is well prepared for moving on to school. | 17 | 12<br>71%<br>73% | 5<br>29%<br>26% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 17 | 11<br>65%<br>63% | 6<br>35%<br>32% | 0<br>0%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| The setting is well run. | 17 | 13<br>76%<br>82% | 3<br>18%<br>18% | 0<br>0%<br>1% | 1<br>6%<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Sheila Margaret Birkhead | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |